



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



28 Ebrill 2023

Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i

Arolygiad o ba mor dda y mae'r Heddlu yn mynd i'r afael â Thrais Ieuenctid Difrifol

Mae'n galonogol darllen bod yr adroddiad wedi dod o hyd i dystiolaeth gynnar y gallai Unedau Lleihau Trais fod yn lleihau troseddau treisgar. Mae'n bwysig nodi nad yw Dyfed-Powys yn un o'r ardaloedd a gafodd arian gan y Swyddfa Gartref ar gyfer Unedau Lleihau Trais, fodd bynnag mae'r adroddiad yn darparu argymhellion a chanfyddiadau ehangach sydd o ddiddordeb i'r gymuned, fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Un o'n blaenoriaethau yw sicrhau bod niwed yn cael ei atal i unigolion a chymunedau a achosir trwy droseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a bregusrwydd.

Rwy'n hyderus bod gan Heddlu Dyfed-Powys ffocws sylweddol ar sicrhau bod swyddogion yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio Canlyniad 22 a'u bod yn gweithio i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Mae hefyd yn galonogol y bydd data mewn perthynas ag ymwneud pobl ifanc â thrais difrifol yn cael ei goladu'n fanylach a'i ddadansoddi fel rhan o'r Ddyletswydd Trais Difrifol.

Mewn ymateb i ddau o'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad:

Argymhelliad 3

Erbyn 31 Mawrth 2024, dylai prif gwnstabiliaid sicrhau bod eu swyddogion wedi'u hyfforddi i ddefnyddio canlyniad 22 y Swyddfa Gartref i droseddau.

- Mae'r Heddlu wedi bod yn cyflwyno pecyn hyfforddi gwell ynghylch canlyniadau, gan gynnwys Canlyniad 22, i swyddogion yn y sefydliad, gan gynnwys swyddogion sydd newydd eu cyflwyno a rhingylliaid sydd newydd gael dyrchafiad, a fydd yn parhau drwy waith yr adran Gwasanaethau Dysgu a Datblygu.
- Yn dilyn canllawiau diweddar, mae cymhwyso Canlyniad 22 i droseddau llai difrifol sy'n ymwneud â phobl ifanc yn mynd i gael ei godi i'w drafod yn y Grŵp Cefnogi Dioddefwyr Tactegol nesaf a'r Grŵp Uniondeb Data Troseddau (Mai 2023). Safbwynt yr Heddlu ar hyn o bryd yw cymhwyso Canlyniad 22 ar gyfer y canlynol:
 - Atgyfeirio i'r Tîm Troseddwy'r Ifanc (TTI) – lle nad yw'n gysylltiedig â chanlyniad ffurfiol arall e.e. byddai atgyfeiriad at TTI fel rhan o rybuddiad Amodol Ieuenctid yn dal i gael ei gofnodi fel Rhybuddiad Ieuenctid.
 - Gorchymyn Atal ac Ymatal – lle mae un wedi'i roi gyda'r nod o addysgu a dargyfeirio oddi wrth droseddau.
- Mae dogfen ganlyniadau a phoster newydd wedi'u dylunio'n ddiweddar a'u dosbarthu i bob un o Benaethiaid a Phrif Arolygwyr yr Ardaloedd Plismona Lleol i sicrhau bod eu Rhingylliaid i gyd yn ymwybodol o'r ddogfen hon.



Argymhelliad 4

Erbyn 31 Mawrth 2024, dylai prif gwnstabiliaid sicrhau bod eu heddluoedd, trwy gasglu a dadansoddi data, yn deall lefelau anghymesuredd hiliol mewn trais difrifol gan ieuenctid yn eu hardal heddlu.

- Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn sicrhau eu bod yn coladu ac yn dadansoddi data mewn perthynas â phobl ifanc fel rhan o'r Ddyletswydd Trais Difrifol, gan gynnwys data ar nodweddion, megis ethnigrwydd. Bydd hyn yn galluogi'r Heddlu a phartneriaid i fonitro unrhyw anghymesuredd posibl.

Mae'r ymateb a dderbyniwyd gan yr Heddlu wedi fy sicrhau bod llawer iawn o waith wedi'i wneud i wella'r ffocws ar y gwaith o ddefnyddio canlyniad 22 a dadansoddi data cynhwysfawr ar gyfer trais difrifol gan ieuenctid. Rwyf wedi cael fy sicrhau gan Heddlu Dyfed-Powys y dylai'r camau hyn arwain at welliant yn y meysydd hyn yn y dyfodol. Mae fy swyddfa ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r awdurdodau penodedig i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Ddyletswydd Trais Difrifol. Byddaf yn monitro cyflawniad eu cyfrifoldebau yn agos dros y misoedd nesaf.